**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Dirprwy Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:**

**TESTUN:** **HYFFORDDIANT CADEIRIO**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD:

Darparu gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â'r hyfforddiant diweddar a gynhaliwyd i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned.

## 2. CEFNDIR

Darparwyd yr hyfforddiant hwn ar 16 Mai 2013 gan Julia Wright Associates yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Roedd y sesiwn hanner diwrnod yn cynnwys y testunau canlynol:

- Pam rydym ni'n cynnal cyfarfodydd?
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd
- Cynllunio Cyfarfod Anffurfiol
- Tair Brif Elfen ar gyfer Llwyddo
- Problemau gyda Chyfarfodydd
- Ysgogi Trafodaethau
- Gwrthdaro mewn cyfarfodydd
- Trefn Cyfarfodydd Ffurfiol
- Rheolau cyffredinol ar gyfer Cyfarfydd Anffurfiol
- Sut ddylai grwpiau ymddwyn?

Daeth 20 aelod i'r digwyddiad ac roedd pawb yn cyfrannu gan rannu arferion a myfyrio ar brosesau eu Cyngor. Roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben gyda'r ffurflenni adborth yn dangos bod y digwyddiad naill ai yn dda iawn neu'n wych. Yn ôl y sylwadau ychwanegol roedd y sesiwn wedi ei gynnal yn dda ac yn rhoi hyder i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion gadeirio cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol. Roedd yr Aelodau'n teimlo eu bod wedi cael budd o'r drafodaeth agored ar y pethau sy'n gweithio'n dda a'r pethau nad ydyn nhw'n gweithio'n dda ac wedi cael budd o wrando ar brofiadau eraill, yn arbennig o ran delio â gwrthdaro neu faterion sy'n hawlio llawer o sylw.

Roedd y grŵp yn teimlo y byddai'n syniad da cynnal yr hyfforddiant hwn yn flynyddol. Soniwyd y byddai'n well ei gynnal ar ôl i Gynghorau Tref a Chymun benodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion newydd (diwedd mis

Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf, neu cyn egwyl mis Awst fan bellaf).

Ar gyfer y dyfodol, roedd ar y grŵp eisiau cyfieithydd ac, oherwydd nifer y mynychwyr, sesiwn hirach er mwyn cael mwy o amser i drafod materion yn fanylach. Awgrymodd rhai Aelodau y byddai senarios mwy ymarferol o ddefnydd.

## 3 ARGYMHELLION

1. Bod Aelodau’r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Bod Aelodau’r Pwyllgor Safonau yn ystyried yr adborth a ddarparwyd ac yn ystyried a ddylai’r Swyddog Monitro drefnu'r hyfforddiant hwn yn flynyddol.